Safonau gwasanaeth – Safonau ailosod

Datganiad o genhadaeth Tai Ceredigion

“Bod yn landlord ac yn gyflogwr dwyieithog o’r radd flaenaf sy’n rhoi tenantiaid yn gyntaf, sy’n darparu cartrefi o safon ac sydd o fudd i gymunedau a’r economi leol.”

Safon

Mae Tai Ceredigion yn ymdrechu i sicrhau bod pob eiddo yn lân ac yn addas i rywun fyw ynddo cyn iddo gael ei osod, a bydd yn sicrhau’r safon hon pan fyddwch yn symud i mewn i’ch cartref newydd.

Allanol

Byddwn yn ceisio sicrhau:

- nad oes sbwriel yn y gerddi a bod y gerddi wedi’u strimio pan fyddwch yn symud i mewn
- bod y ffensys / waliau / llwybrau / grisiau’n ddiogel
- bod y siediau’n ddiogel ac nad oes sbwriel ynddynt

Mewnol

Byddwn yn ceisio sicrhau:

- bod yr holl waith paentio mewn cyflwr da ym mhob rhan o’r eiddo
- nad oes tyllau yn y plastr a bod unrhyw sgriwiau, hoelion ac ati wedi’u tynnu oddi yno
- bod archwiliad diogelwch wedi’i gynnal o’r gosodiadau trydan a nwy (lle bo’n berthnasol) a’ch bod yn cael tystysgrif cyn pen 28 diwrnod
- bod pob ffenest a drws yn ddiogel, eu bod mewn cyflwr da a bod modd eu hagor a’u cau
- y bydd dyfeisiau sy’n atal ffenestri rhag agor yn rhy bell yn cael eu gosod ar ffenestri llety sydd uwchlaw’r llawr gwaelod, os oes angen

Byddwn yn ceisio sicrhau:

- nad oes unrhyw orchudd, h.y. carpedi / leino neu lawr wedi’i laminadu, ar unrhyw loriau yn y cyntedd, y lolfa a’r ystafelloedd gwely. Efallai y bydd gorchuddion wedi’u gadael ar y lloriau gan y tenant blaenorol os yw staff Tai Ceredigion wedi’u hasesu ac wedi penderfynu eu bod mewn cyflwr eithaf da. Os nad ydych am dderbyn cyfrifoldeb am y gorchuddion hynny pan fyddwch yn ymrwymo i’r denantiaeth, bydd Tai Ceredigion yn gwneud trefniadau i gael gwared â nhw’n rhad ac am ddim
- bod gorchuddion finyl neu orchuddion diogelwch yn cael eu gosod mewn fflatiau lle mae deunydd inswleiddio rhag sŵn wedi’i osod
- bod teils neu orchuddion ar loriau’r gegin neu’r ystafell ymolchi, os oes rhai, mewn cyflwr da
- bod pob styllen mewn llawr yn ddiogel ac mewn cyflwr da
- bod yr unedau cegin mewn cyflwr da, yn lân ac yn addas i’w defnyddio
- bod yr ystafell ymolchi’n lân ac yn addas i’w defnyddio
- bod pob sinc yn lân ac mewn cyflwr da a bod ganddynt blwg a chadwyn
- bod y teils yn y gegin a’r ystafell ymolchi mewn cyflwr da ac yn lân

Safonau gwasanaeth – Safonau ailosod

- bod cyflenwad nwy neu drydan yn y gegin
- bod yr eiddo wedi'i lanhau i safon dderbyniol
- bod y lloriau wedi'u brwsio a'u glanhau
- nad oes sbwriel yn y llofft
- bod yr ardaloedd cyffredin yn lân
- bod y system gwres canolog a dŵr poeth yn gweithio'n iawn
- bod unrhyw deils polystyren wedi'u tynnu oddi yno

Chi sy'n gyfrifol am wneud y canlynol:

- trefnu bod eich ffwrn a'ch peiriannau golchi'n cael eu cysylltu gan unigolyn cymwys
- sicrhau nad yw peiriannau'n rhy fawr i'r lle safonol a ddarperir ar eu cyfer

Caiff y Safonau hyn eu hadolygu'n rheolaidd, o leiaf bob tair blynedd